CYNGOR SIR DDINBYCH
HYSBYSIAD O GYFYNGIAD CYFLYMDER PARHAOL
(A525 Y GREEN DINBYCH)
GORCHYMYN (CYFYNGIAD CYFLYMDER 30 MYA) 202

Mae Cyngor Sir Ddinbych drwy hyn yn hysbysu ei fod yn bwriadu llunio Gorchymyn dan Adrannau 82(2) 83(2) 84(1) ac 84(2) Rhan III a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, ac effaith y Gorchymyn fydd gosod cyfyngiad cyflymder o 30 milltir yr awr ar hyd y darn o ffordd a nodir yn yr Atodlen isod.

Bydd y Gorchymyn a wnaed yn flaenorol o'r enw Gorchymyn (Cyfyngiad Cyflymder 40 mya) (Y Green Dinbych) Cyngor Sir Ddinbych 1998 yn cael ei ddiddymu cyn belled â'i fod yn effeithio ar y darn o ffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen isod.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn arfaethedig ynghyd â chynlluniau, a'r gorchymyn i'w ddiddymu, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn yn Llyfrgell Dinbych, Sgwâr y Neuadd, Dinbych yn ystod oriau agor arferol, ac yn Swyddfeydd y Cyngor yng Nghaledfryn, Ffordd y Ffair, Dinbych.

Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gwrthwynebu'r gorchymyn arfaethedig wneud hynny drwy gyflwyno ymatebion i holiadur y mae'r cynigion yn perthyn iddynt, gan ddefnyddio gwefan Cyngor Sir Ddinbych dan Borth Sgwrs y Sir, neu drwy anfon datganiad ysgrifenedig o wrthwynebiad, yn datgan y sail y gwneir y gwrthwynebiad i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ, dim hwyrach na 17 Ebrill 2020. Sylwch y gall cynnwys unrhyw sylwadau y bydd y cyngor yn ei dderbyn fod ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus.

ATODLEN
Darn o ffordd ar y Green Dinbych yn Sir Ddinbych.
Cyfyngiad Cyflymder 30 mya

A525; o bwynt 202 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth i Dremeirchion, am bellter o 947 o fetrau i gyfeiriad y de (wedi'i fesur ar hyd ymyl y pafin dwyreiniol).

Dyddiedig 25 Mawrth 2020

Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd,
Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, (SBH/DCC034720)

Datganiad o Resymau

I weithredu canfyddiadau'r adolygiad terfyn cyflymder ar gyfer y Sir yn dilyn Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 24/2009 sy'n gosod targed ar gyfer meysydd i'w hadolygu a lle bo hynny'n briodol gweithredu newidiadau ar hyd pob ffordd A a B yn yr ardal.



Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Planning and Public Protection

Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd
Traffic, Parking and Road Safety

Key:

30 mph restriction

RHIF GWAITH/JOB NUMBER

DYLUNIWYD/DRAWING SCALES: NTS

RHIF GRID/NATIONAL GRID REFERENCE: SJ0568

DYLUNIWYD GAN/DRAWN BY: RP

CYMERADWYWYD GAN/APPROVED BY

NEWIDIADU/AMENDMENTS

A	Original Drawing	

STATWS LLUNIAD/DRAWING STATUS: TENDER

DYDDIAD NEWID OLAF/LAST EDIT DATE: 03/04/18

CYNLLUN/SCHEME: Denbigh Green Speed Restriction

TEITL LLUNIAD/DRAWING TITLE: Lower 40mph to 30mph Location Plan

RHIF LLUNIAD/DRAWING NUMBER

RHIF LLUNIAD/DRAWING NUMBER

CYNGOR SIR DDINBYCH

(A525 Y Green Dinbych)

Gorchymyn (Cyfyngiad Cyflymder 30mya) 202

Mae Cyngor Sir Ddinbych drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 82(2), 83(2) 84(1) a 84(2) a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (yn cael ei chyfeirio ati fel "Deddf 1984" o hyn ymlaen), a'r holl bwerau galluogi eraill, ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III y Ddeddf 1984, a thrwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ni chaiff unrhyw berson yrru na chaniatáu i unrhyw gerbyd deithio ar gyflymder sy'n fwy na 30 milltir yr awr ar hyd y rhan o'r ffordd y cyfeirir ati yn yr Atodlen hon.

2. Bydd y Gorchymyn a wnaed yn flaenorol o'r enw Gorchymyn (Cyfyngiad Cyflymder 40 mya) (Y Green Dinbych) Cyngor Sir Ddinbych 1998 yn cael ei ddiddymu drwy hyn cyn belled â'i fod yn effeithio ar y darn o ffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen.

3. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 202 ac fe'i gelwir yn Orchymyn 202 (Cyfyngiad Cyflymder 30 mya) (A525 Green Dinbych) Cyngor Sir Ddinbych

ATODLEN
Darn o ffordd ar y Green Dinbych yn Sir Ddinbych.
Cyfyngiad Cyflymder 30 mya

A525; o bwynt 202 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth i Dremeirchion, am bellter o 947 o fetrau i gyfeiriad y de (wedi'i fesur ar hyd ymyl y pafin dwyreiniol).

RHODDWYD DAN SÊL GYFFREDIN)
CYNGOR SIR DDINBYCH)

Dyddiedig y/yr dydd hwn o 202)
yng ngŵydd:-)

Llofnodwr Awdurdodedig

Cyngor Sir Ddinbych

(A525 Y Green Dinbych)

Gorchymyn (Cyfyngiad Cyflymder 30mya) 202

GORCHYMYN

Fel y mae

Gary Williams
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun

(SBH/DCC034720)